Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth

# Taldra Megan



**Deunyddiau cymorth i athrawon**

## Blwyddyn 4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Blwyddyn 4 Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth – Taldra Megan

Mae'r gweithgareddau hyn ar gyfer Blwyddyn 4 yn gofyn i'r dysgwyr greu a datrys problemau yng nghyd-destun mesur. Byddan nhw'n dewis eu dull eu hunain ac yn penderfynu eu hunain beth i'w ysgrifennu.



**Gweithgaredd 1**

**Taldra Megan**
Rhoddir gwybodaeth i'r dysgwyr er mwyn datrys problem.
Mae'n cynnwys:
- Cwestiwn – Taldra Megan
- Cynllun marcio

**Gweithgaredd 2**

**Taldra hanner ffordd**
Wedyn, byddan nhw'n dewis eu set/setiau eu hunain o luniau ac yn creu eu cwestiwn/cwestiynau eu hunain.
Mae'n cynnwys:
- Esboniwch a holwch – cyfarwyddiadau i athrawon
- Taflen adnoddau – Taldra hanner ffordd
- Taflen adnoddau – A nawr mae 'na bedwar!

**Gweithgaredd 3**

**Beth amdanom ni?**
Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd yn ystod y gweithgareddau blaenorol, bydd y dysgwyr yn ymchwilio i'r berthynas rhwng eu taldra eu hunain.
Mae'n cynnwys:
- Esboniwch a holwch – cyfarwyddiadau i athrawon

## Y sgiliau rhesymu sydd eu hangen

| Adnabod | Cyfathrebu | Adolygu |
|---|---|---|
| Bydd y dysgwyr yn ystyried pa fesuriadau sy'n realistig a pham. | Byddan nhw'n defnyddio iaith fathemategol glir ac yn ystyried a yw'r holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chynnwys. | Byddan nhw'n adolygu gwaith a gynhyrchwyd gan wahanol grwpiau ac yn rhoi adborth i helpu eraill i wella'u gwaith. |

## Sgiliau gweithdrefnol

- Adio a thynnu
- Amcangyfrif
- Mesur

## Iaith rifiadol

- Taldra
- Talaf/byrraf
- Dimensiynau
- Hanner ffordd

Gweithgaredd 1

# Taldra Megan

## Gweithgaredd 1 – Taldra Megan

neu



### Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn ceisio cyfrifo taldra Megan drwy ddefnyddio dau ddarn o wybodaeth a ddarperir iddyn nhw.

### Bydd angen


C

**Cwestiwn – Taldra Megan**
Un dudalen i bob dysgwr

CM

**Cynllun marcio**

Mae taldra Alun
**hanner ffordd**
yn union rhwng
taldra Jo a
fy nhaldra i.




Mae taldra Alun yn **98cm**.

Mae taldra Jo yn **120cm**.

Beth yw taldra Megan?

cm


2m

# Gweithgaredd 1 – Taldra Megan – Cynllun marcio

| Marciau | Ateb |
|---|---|
| 2m | **76**cm |
| Neu 1m | Yn dangos **22**<br><br>Neu<br><br>Yn gwneud camgymeriad wrth ddod o hyd i 120 – 98 ac wedyn yn **tynnu**'r gwerth hwnnw'n **gywir o 98**, e.e.<br><br>• 120 – 98 = 23 (gwall)<br>98 – 23 = 75 |


◄ **Taldra Jo – taldra Alun, mewn cm**

## Gweithgaredd 1 – Taldra Megan – Enghreifftiau





Cywir; **2 farc**

- Mae'r gwaith hwn yn dangos sgiliau cyfathrebu da: mae'r dull yn glir.





Cywir; **2 farc**

- Byddai'r dysgwr hwn yn elwa ar drafod cyfathrebu rhifiadol effeithiol. Mae'n gamddealltwriaeth gyffredin meddwl bod angen 'traethawd byr'.





Yn dangos 22; **1 marc**

- Mae'r dysgwr hwn yn deall beth i'w wneud ond mae wedi gwneud camgymeriad wrth gyfrif yn ôl.




Anghywir; **0 marc**

- Er bod y dysgwr hwn o bosibl wedi gwneud camgymeriad rhifiadol, nid yw'n dangos dull ac felly ni ellir rhoi marc. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd dangos gwaith bras.




Anghywir; **0 marc**


Gwall cyffredin

Mae hwn yn wall cyffredin. Mae angen cymorth ar ddysgwyr i ddeall nad yw diagramau'n dangos y maint llawn. Mae angen eu hannog hefyd i adolygu eu gwaith oherwydd nid yw'r ateb hwn yn gwneud synnwyr o gwbl yn y cyd-destun.

Gweithgaredd 2

# Taldra hanner ffordd

# Gweithgaredd 2 – Taldra hanner ffordd

 neu 




## Amlinelliad

Bwriedir i'r gweithgaredd hwn ddilyn ymlaen o **Weithgaredd 1 – Taldra Megan**.


Bydd y dysgwyr yn dewis un set o luniau neu fwy ac yn datblygu eu cwestiwn/cwestiynau eu hunain am daldra'r bobl neu'r anifeiliaid.

Byddan nhw'n rhoi eu cwestiwn/cwestiynau i grwpiau/parau eraill, ac wedyn yn gweithredu fel 'athrawon', gan roi adborth ar yr atebion a'r dulliau a ddangosir.

## Bydd angen




**Taflen adnoddau – Taldra hanner ffordd**



**Taflen adnoddau – A nawr mae 'na bedwar!**
Gweithgaredd ymestynnol (os defnyddir hwn)



**Siswrn**



**Glud**

# Gweithgaredd 2 – Taldra hanner ffordd

**Esboniwch**


Rhowch gopi o'r daflen adnoddau, **Taldra hanner ffordd** i'r dysgwyr.

Esboniwch fod pob set o dri llun yn dangos tri o bobl (neu anifeiliaid). Un ohonyn nhw yw'r talaf, un ohonyn nhw yw'r byrraf ac mae'r trydydd yn union hanner ffordd rhwng y ddau o ran taldra.

Gofynnwch iddyn nhw dorri allan set o luniau o'u dewis a'u gludo ar ddarn o bapur neu gerdyn.

Dylen nhw gydweithio i gytuno ar daldra realistig ar gyfer dau o'r lluniau ac wedyn ysgrifennu cwestiwn (ar eu papur/cerdyn) sy'n gofyn am daldra'r llun arall.

Er enghraifft:



Mae taldra'r bachgen hanner ffordd rhwng taldra'r ci a thaldra'r dyn.

Mae taldra'r dyn yn 185cm ac mae taldra'r bachgen yn 120cm. Beth yw taldra'r ci?


Bydd y dysgwyr yn cyflwyno'u cwestiwn/cwestiynau i grwpiau/parau eraill eu datrys. Bydd yr atebion hynny'n cael eu 'marcio' gan y grŵp a ysgrifennodd y cwestiwn a bydd y grŵp hwnnw hefyd yn rhoi adborth.


**Holwch**

- Pa fesuriadau sy'n realistig? Sut rydych chi'n gwybod?
- Ydy'r gwahanol fathau o daldra rydych wedi'u dewis yn rhy anodd? Os ydyn nhw, beth allwch chi ei newid?
- Ydy eich cwestiwn yn glir? A fydd yn gwneud synnwyr i bawb arall?
- Ydych chi wedi gwirio'ch ateb? Sut?
- Ydy eich adborth i'r grwpiau eraill yn glir ac yn ddefnyddiol?


## Gwaith ymestynnol

- Gweler y daflen ar wahân: **A nawr mae 'na bedwar!** *(Ateb: Stan 140cm, Joe 110cm.)*


















Lisa Stan Joe Alis

Mae taldra **Lisa** yn 170cm. Mae taldra **Alis** yn 80cm.

Mae taldra **Stan** hanner ffordd rhwng taldra Lisa a thaldra Joe.

Mae taldra **Joe** hanner ffordd rhwng taldra Stan a thaldra Alis.


Beth yw taldra Stan a Joe?

Nawr, ysgrifennwch eich cwestiynau eich hun gan ddefnyddio taldra pedwar o bobl . . . neu bump . . . neu?

Gweithgaredd 3

# Beth amdanom ni?

## Gweithgaredd 3 – Beth amdanom ni?




### Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn adeiladu ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu yng **Ngweithgaredd 1 – Taldra Megan** a **Gweithgaredd 2 – Taldra hanner ffordd**, i ymchwilio i'r berthynas rhwng eu taldra nhw eu hunain.

Mewn parau, byddan nhw'n ceisio dod o hyd i rywun sydd tua hanner ffordd rhyngddyn nhw o ran taldra.

Wedyn, byddan nhw'n mesur i weld pa mor gywir ydyn nhw.

### Bydd angen



**Tapiau mesur**

## Gweithgaredd 3 – Beth amdanom ni?

**Esboniwch**

Dewiswch ddau ddysgwr o wahanol daldra. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis rhywun yn y dosbarth sydd hanner ffordd rhyngddyn nhw o ran taldra. Gofynnwch sut gallan nhw ddarganfod a yw taldra'r dysgwr hwnnw hanner ffordd yn union rhyngddynt.

Rhannwch y dosbarth yn barau o ddysgwyr sy'n amlwg yn wahanol o ran eu taldra.

Wedyn, bydd angen i'r parau amcangyfrif pwy yn y dosbarth sydd agosaf at hanner ffordd rhyngddyn nhw o ran taldra. Yn ystod y cam hwn, rhaid iddyn nhw aros yn y man a neilltuwyd ar eu cyfer yn yr ystafell, a rhaid iddyn nhw amcangyfrif drwy edrych yn unig *(mae hyn yn osgoi anhrefn!)*.

Ar ôl i bawb ddewis eu person 'canol', bydd y parau, yn eu tro, yn ceisio canfod ydyn nhw'n gywir.

*(Gellid gwneud hyn drwy fireinio'u hamcangyfrifon;*

1. *Maen nhw'n amcangyfrif drwy edrych yn unig.*
2. *Maen nhw'n gwirio drwy sefyll wrth ymyl ei gilydd, ac wedyn efallai byddan nhw'n newid y person maen nhw wedi'i ddewis, yn dibynnu ar yr hyn maen nhw'n weld nawr.*
3. *Dyna'u 'dyfaliad' terfynol ac wedyn byddan nhw'n mesur i weld a ydyn nhw'n gywir.)*

**Neu**

Pum pwynt am amcangyfrif sydd o fewn 1cm i'r taldra hanner ffordd, tri phwynt am fod o fewn 3cm, ac un pwynt am fod o fewn 5cm.

**Holwch**

- Sut rydych chi'n mynd ati i amcangyfrif hanner ffordd?
- Pa unedau rydych chi'n eu defnyddio i fesur? Pam?
- Pa mor fanwl gywir rydych chi'n ceisio bod? (Er enghraifft, i'r cm agosaf, neu i'r mm agosaf, neu . . . ? ) Pam?
- Pa ddull rydych chi wedi'i ddefnyddio i ganfod a yw eich dewis yn gywir ynteu'n anghywir?
- Os nad yw eich person-canol hanner ffordd yn union rhyngoch chi o ran taldra, pa mor bell ohoni ydych chi?